**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

4 Chwefror 2025

Annwyl Buffy

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2024 yn gofyn am fwy o wybodaeth am gynnwys ac amserlen yr adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r adolygiad yn ystyried eglurder a hygyrchedd y fframwaith deddfwriaethol, i lywio atebion polisi a deddfwriaethol ar feysydd y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod ADY.

Mae hyn ochr yn ochr â gweithgareddau ymchwil manwl a chanfyddiadau y gwerthusiad pedair blynedd o'r system ADY a gynhaliwyd gan Arad Research. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad cwmpasu, arolwg o ymarferwyr (a ddisgwylir ym mis Chwefror 2025) ac arolwg o rieni a gofalwyr sydd ar y gweill.

Mae proses iteraidd o gasglu tystiolaeth wedi dechrau i archwilio ystod o faterion, gan gynnwys:

- Eglurder a hygyrchedd y Ddeddf a'r canllawiau statudol.
- Sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn adlewyrchu bwriad y polisi.
- Adnabod unrhyw anghysondebau a meysydd lle gallai fod angen mwy o eglurder.
- Deall sut mae'r fframwaith deddfwriaethol yn cael ei roi ar waith yn ymarferol.
- Nodi atebion polisi a deddfwriaethol.

Ar hyn o bryd rydym yn gofyn am dystiolaeth gan y partneriaid a’r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Tribiwnlys Addysg Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau addysg bellach, y blynyddoedd cynnar, cynrychiolwyr y trydydd sector a rhieni. Gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth o dan y penawdau canlynol:

a) Diffinio a nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

b) Diffinio a nodi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)
c) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
d) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
e) Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY
f) Dyletswydd i baratoi Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) sy'n cynnwys y ddyletswydd ar ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol (ALlau).
g) Plant o dan oedran ysgol gorfodol – dyletswydd ar ALlau i gynnal CDUau.
h) Plant dros oedran ysgol gorfodol – dyletswydd ar ALlau i gynnal CDUau.
i) Pobl ifanc mewn sefydliadau addysg bellach – dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac ALlau i gynnal CDUau.
j) Pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir nac mewn sefydliad addysg bellach – dyletswyddau ar ALlau.
k) Cynnwys CDUau
    a. Adran 2A ADY
    b. Adran 2B Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, gan gynnwys deilliannau
    c. Adran 2C Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG
    d. Adran 2D Lleoliad addysg
    e. Darpariaeth yn Gymraeg
l) Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond sy'n cael eu haddysgu yn Lloegr
m) Plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
n) Plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n derbyn gofal.
o) Peidio â chynnal CDU
p) Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol
q) Pontio o ddarpariaeth AAA i ADY
r) Gweithdrefnau a phwerau'r Tribiwnlys

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn cael sylwadau ar y canlynol:

1) Statws y Cod ADY a'r ymadwaith rhwng y Ddeddf ADY, y Rheoliadau ADY a'r Cod ADY wrth wneud penderfyniadau ac wrth gymhwyso'r gyfraith.

2) Unrhyw gamgymharu ymddangosiadol rhwng y Ddeddf ADY a'r Cod ADY, neu unrhyw ddryswch gan randdeiliaid mewn perthynas ag ystyr y Cod ADY.

3) Unrhyw sylwadau eraill nad ydynt yn dod o dan y penawdau a'r materion a godwyd uchod.

Bydd tystiolaeth ac adroddiadau presennol y Pwyllgor yn cael eu hystyried yn yr adolygiad hwn. Mae gennyf ddiddordeb mewn gwybod a hoffech i'r Pwyllgor gael mewnbwn pellach i'r broses hon.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2025, ac rwy'n disgwyl rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd a chanfyddiadau'r adolygiad erbyn dechrau mis Gorffennaf 2025. Mae hwn yn waith cymhleth, ac mae'n rhaid i ni ei gael yn iawn ac mae'n well gennyf gael pethau'n iawn na rhuthro'r gwaith.

Yn y cyfamser, fel y dywedais yn glir yn nadl y Pwyllgor ar 13 Tachwedd 2024 mae'r gwaith o wella'r broses weithredu yn parhau ochr yn ochr â'r adolygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r cydweithio rhwng partneriaid iechyd ac addysg i wella'r dull amlasiantaethol o weithio tuag at nodau cyffredin. Mae swyddogion wedi bod yn gwrando ar bryderon rhieni dros y chwe mis diwethaf ac maent yn cyflawni camau gweithredu i wella hygyrchedd ac argaeledd gwybodaeth am y system ADY. Mae cyfarfodydd tymhorol gydag awdurdodau

lleol unigol yn parhau, gan greu strwythurau ar gyfer partneriaid cyflawni allweddol i godi heriau a chynlluniau i wella yn lleol. Yn olaf, mae gwaith ar y gweill i ddeall yn well beth sydd 'ar gael yn gyffredinol' i bob dysgwr yng Nghymru.

Rwy'n benderfynol bod diwallu anghenion dysgwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein diwygiadau addysg ac nad ydym yn diystyru pwysigrwydd yr adolygiad hwn wrth gyflawni'r nod hwnnw.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education